# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gwahardd gosod a rheoli heb gofrestriad a thrwydded*

### 6 Gofyniad i landlord fod yn drwyddedig i ymgymryd â gweithgareddau gosod

(1) Ni chaniateir i landlord annedd sy’n cael ei marchnata neu ei chynnig i’w gosod o dan denantiaeth ddomestig wneud unrhyw un o’r pethau a ddisgrifir yn is-adran (2) mewn perthynas â’r annedd oni bai—

(a) bod y landlord yn drwyddedig i wneud hynny o dan y Rhan hon ar gyfer yr ardal y mae’r annedd wedi ei lleoli ynddi,

(b) mai’r hyn a wneir yw trefnu i asiant awdurdodedig wneud rhywbeth ar ran y landlord, neu

(c) bod eithriad yn adran 8 yn gymwys.

(2) Y pethau yw—

(a) trefnu neu gynnal ymweliadau gan ddarpar denantiaid;

(b) casglu tystiolaeth at ddiben penderfynu ar addasrwydd darpar denantiaid (er enghraifft, drwy gadarnhau tystlythyrau, cynnal gwiriadau credyd neu gyfweld darpar denantiaid);

(c) paratoi, neu drefnu i baratoi, cytundeb tenantiaeth;

(d) paratoi, neu drefnu i baratoi, stocrestr ar gyfer yr annedd neu restr gyflwr ar gyfer yr annedd.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy orchymyn—

(a) diwygio neu hepgor y disgrifiadau o bethau yn is-adran (2) (gan gynnwys pethau a ychwanegir o dan baragraff (b));

(b) ychwanegu disgrifiadau pellach o bethau at is-adran (2).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Mae landlord sy'n torri is-adran (1) yn cyflawni trosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

(5) Mewn achos yn erbyn landlord am drosedd o dan is-adran (4) mae'r ffaith bod gan y landlord esgus rhesymol am beidio â bod yn drwyddedig yn amddiffyniad.

(6) Yn is-adran (1) ystyr "asiant awdurdodedig" yw—

(a) person sy'n drwyddedig i ymgymryd â gwaith gosod a gwaith rheoli eiddo o dan y Rhan hon ar gyfer yr ardal y lleolir yr annedd ynddi,

(b) awdurdod tai lleol (pa un a yw'n arfer ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol ai peidio), neu

(c) mewn perthynas â pharatoi, neu drefnu i baratoi cytundeb tenantiaeth yn unig, cyfreithiwr cymwysedig (o fewn yr ystyr a roddir i "qualified solicitor" yn Rhan 1 o Ddeddf Cyfreithwyr 1974), person sy'n gweithredu ar ran cyfreithiwr o'r fath neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.